Uchafbwyntiau Llwybr yr Arfordir

Mae Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn llwybr i bawb, ac mae pob un yn dod ar draws rhywbeth arbennig wrth ei droedio.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau y mae cerddwyr wedi sôn wrthym amdanynt, mwynhewch wrth i chi ddod o hyd i'ch rhai chi eich hun a pheidiwch ag anghofio dweud wrthym amdanynt!

"Mae'r craig ffurfiadau ar hyd yr arfordir ar Faestir Castellmartin yn syfrdanol."
Bjorn Watson,
o Shrivenham, Swydd Rydychen

"Mae'n bleser cael cerdded ar hyd y Llwybr, sy'n cael ei gynnal a'i gadw mor dda, am ddim. Mae'n wefreiddiol bob amser, ac rydyn ni'n hynod o ddiolchgar."
Ann Rowse, a Birmingham

"Mae'r rhan orau o Broad Haven South i Skrinkle Haven, ond rhyw ddydd fe ddown yn ôl i edmygu'r cyfan unwaith eto."
Sonja a Herman Ozinga,
o'r Iseldiroedd

"Mae St Non's mor heddychlon ac atmosfferig a bach iawn o bobl oedd o gwmpas."
Wendy Jones,
cerddwr dall o Bontypridd

"Rydw i wedi gweld golygfeydd godidog mewn tywydd gwahanol, ac amrywiaeth anferth o flodau a ffawna. I mi, mae apêl y Llwybr yn ddiddiwedd."
Mary Wright,
Warden Gwirfoddol y Parc Cenedlaethol,
o Fryste

Cymerwch eich amser, cwblhewch yr her

Cerddwch bob modfedd o Lwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ar eich cyflymder eich hun, ac yn eich amser eich hun, ac yna mynnwch eich tystysgrif rad ac am ddim.

Ffeithiau am Lwybr yr Arfordir

- Mae Llwybr yr Arfordir yn ymlwybro am 186 milltir o Lanrhath yn y de i Poppit yn y gogledd.
- Mae'n rhoi mynediad i'r arfordir ar gyfer pob math o weithgareddau ac anturiaethau, o bysgota i arforgampau.
- Mae mwy nag 80 o draethau a childraethau hygyrch ar hyd y Llwybr, yn cynnwys 50 o draethau ymdrochi o safon, y mae sawl un wedi ennill gwobrau.
- Mae'r rhan fwyaf o'r tir y mae'r Llwybr yn ei groesi yn eiddo preifat.
- Mae'r Llwybr Cenedlaethol wedi ei farcio gyda symbol mesen.
- Mae'r Llwybr yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru.

Cynlluniwch eich taith: rhowch glic ar www.nationaltrail.co.uk

I gael gwybod mwy:

www.facebook.com/pembrokeshire.coast
www.twitter.com/PembsCoast
www.youtube.com/pembrokeshirecoastnationalpark
www.instagram.com/PembsCoast

Cysylltu â ni:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY
Ffôn: 01646 624800 www.arfordirpenfro.cymru

Ffotograffau: © Visit Wales, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro

Cymerwch Her Llwybr yr Arfordir

Cynllun tystysgrif Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Cerddwch bob modfedd o'r Llwybr 186 milltir ar eich cyflymder eich hun, a mynnwch eich tystysgrif rad ac am ddim



Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
Pembrokeshire Coast Path
National Trail

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path